Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol

Dyddiad:

9fed o Fai, 2024

Presennol

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams (Golan), Jess Williams (Penmorfa)

Croesawyd Michael Jones yn ôl ar ôl cyfnod o salwch.

Ymddiheuriadau

Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin)

Datgan Buddiant

Neb

Penderfyniadau

Tendrau: Cynhaliwyd Is-bwyllgor Mynwentydd ar yr 11eg o Ebrill i drafod y tendrau ddaeth i mewn. Cyflwynwyd yr holl brisiau i'r pwyllgor. Ar ôl ystyried yr holl brisiau, penderfynwyd y canlynol:

- Rhys Jones (Madog Gardencare) – Mynwent Bethel
- Dylan Edwards – Llwybrau Cyhoeddus a Mynwentydd Penmorfa, Pentrefelin, Cwm Pennant, Prenteg a Chae Chwarae Penmorfa.
- Idris Jones – Llwybrau Cyhoeddus Bryncir, Garndolbenmaen a Golan.

GEH yn cynnig a RP yn eilio.

Soniodd y clerc ei bod wedi llythyru'r tri chontractwr a bod Rhys Jones a Dylan Edwards wedi derbyn ac yn ddiolchgar iawn o'r gwaith.

Hwb Eifionydd

Adroddwyd fod cleifion Hwb Eifionydd yn parhau i gael trafferth cael apwyntiad. Awgrymwyd gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth i Hwb Eifionydd. Cynghorwyr i adael i'r Clerc wybod pa wybodaeth yr hoffent wybod.

Rheolau Ailgylchu Newydd

Adroddodd y Clerc ei bod hi'n ofynnol i bob busnes, sefydliad cyhoeddus wahanu eu gwastraff er mwyn ei ailgylchu ers y 6ed o Ebrill, 2024.

Soniodd y Clerc ei bod wedi derbyn prisiau gan Veolia, Cyngor Gwynedd a Williams a Williams Cyf.

Penderfynwyd trafod y mater ymhellach mis nesaf ac yn y cyfamser y dylid rhoi arwyddion i fyny yn y mynwentydd yn hysbysu o'r rheoliadau newydd ac yn annog ymwelwyr i fynd a'u gwastraff gartref.

Cynllunio:

Rhif Cais: NP2/16/389F

Lleoliad: Beudy Parc, Golan, Garndolbenmaen, LL51 9AQ

Bwriad: Adeiladu storfa amaethyddol ac adeilad offer (Dim sylwadau)